

Canllawiau ar gyfer ceisiadau am drwydded amgylcheddol: Rhan D1 - Hysbysiad trosglwyddo (gweithgareddau gollwng dŵr annibynnol a gweithgareddau dŵr daear annibynnol yn unig)

Darllenwch y nodiadau canllaw hyn yn ofalus cyn i chi lenwi'r ffurflenni. Mae'r holl ddogfennau canllaw perthnasol ar gael ar ein gwefan. Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i gwblhau rhan D1 o'r pecyn ffurflen gais.

Dylid cwblhau'r ffurflen hysbysu hon os ydych yn ddeiliad trwydded presennol ar gyfer gweithgaredd gollwng dŵr neu ddŵr daear (gollyngiadau yn y tarddle neu wasgaru ar y tir) a'ch bod am drosglwyddo eich trwydded gyfan neu ran ohoni i rywun arall. Bydd angen i'r person rydych yn trosglwyddo'r drwydded iddo hefyd lenwi rhannau o'r ffurflen hon ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo hefyd lenwi rhan A.

Pan fyddwch yn gweld y term 'cyfeirnod y ddogfen' ar y ffurflen, nodwch gyfeirnodau'r dogfennau ac anfonwch y dogfennau gyda'r ffurflen gais pan fyddwch wedi'i chwblhau. Os byddwch yn cyflwyno dogfennau nad oes eu hangen, nodwch na chânt eu hasesu.

Sut i gysylltu â ni: Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'r person a'i hanfonodd atoch neu cysylltwch â ni drwy:

Ymholiadau cyffredinol dros y ffôn: 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm).

E-bost: yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gwefan: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ble i anfon eich cais: Gallwch anfon eich cais drwy e-bost neu yn y post. Gallwn brosesu ceisiadau yn gyflymach os byddwn yn eu derbyn drwy e-bost (yn electronig). Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau i:

E-bost: canolfanderbyntrwyddedau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Post: Canolfan Derbyn Trwyddedau, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Anfonwch; 1 copi electronig neu CD/cofbin ac 1 copi papur, NEU 2 gopi papur.

Cynnwys

1 Y drwydded

2 Eich hysbysiad trosglwyddo

3 Rhannu eich trwydded drwy drosglwyddiad rhannol

4 Y dyddiad yr hoffech drosglwyddo'r drwydded gyfan neu rannau o'r drwydded

5 Diogelu data

6 Datganiad

1 Y drwydded

1a Rhif y drwydded

Mae'n bosibl y cyfeirir at rif y drwydded hefyd fel eich 'rhif caniatâd' neu eich 'rhif awdurdodiad' mewn dogfennau a gyhoeddwyd cyn 6 Ebrill 2010.

1b Manylion y safle

Llenwch enw, cyfeiriad a chod post y safle. Dylai enw'r safle lle y cynhelir gollyngiadau fod wedi'i nodi ar y drwydded.

2 Eich hysbysiad trosglwyddo

Dylid defnyddio opsiwn y drwydded gyfan lle y caiff perchenogaeth trwydded ei newid. Nid achos o rannu trwydded rhwng gweithredwyr ydyw lle y bydd pob gweithredwr yn cymryd cyfrifoldeb am un gollyngiad neu fwy ar drwydded gollyngiadau niferus; trosglwyddiad rhannol ydyw ac ymdrinnir â hynny yn adran 3.

Os ydych yn trosglwyddo'r drwydded gyfan; pan fydd y trosglwyddiad wedi'i gwblhau, ni fydd gennych unrhyw hawliau pellach i ymgymryd â'r gweithgaredd nac i wneud gollyngiadau. Bydd hyn yn wir os mai chi yw'r unig ddeiliad, neu os ydych yn rhannu trwydded ag eraill.

Os ydych yn trosglwyddo rhan o drwydded; byddwch yn parhau'n rhannol gyfrifol am y drwydded ar ôl y trosglwyddiad. Bydd hyn yn wir os mai chi yw unig ddeiliad y drwydded, neu os ydych yn rhannu trwydded ag eraill.

3 Trosglwyddo rhan neu rannau o'ch trwydded amgylcheddol

Dylid defnyddio Adran 3 i rannu trwydded rhwng gweithredwyr lle y bydd pob gweithredwr yn cymryd cyfrifoldeb am un gollyngiad neu fwy ar drwydded gollyngiadau niferus.

Nid mater syml o newid deiliadaeth trwydded ydyw ond mater o rannu a gwahanu perchenogaeth dros wahanol weithgareddau ar safle.

3a Rhannau o'r drwydded rydych am eu trosglwyddo

Mae angen i ni wybod pa ollyngiadau ar eich trwydded rydych am eu trosglwyddo a pha rai rydych am eu cadw, er mwyn i ni allu drafftio dwy drwydded ar wahân, un i bob deiliad.

Llenwch Dabl 1 gan nodi'r gollyngiadau rydych am eu trosglwyddo yn unig. Gweler y tair enghraifft yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1 – Rhannau o'r drwydded rydych am eu trosglwyddo			
Cyfeirnod y gweithgaredd	Gollyngiadau dŵr		
Disgrifiad o'r gweithgaredd gollwng dŵr	Disgrifiad o'r gweithgaredd dŵr daear	Cyfleuster safonol	Gweithredwr arfaethedig
Elifiant masnach sy'n cynnwys dŵr proses o weithgareddau cynnyrch llaeth			Mr Deiliad Newydd
	Carthffrwd sydd wedi derbyn triniaeth eilaidd i'r ddaear		Mr Deiliad Newydd
	Trochdrwyth defaid gwastraff a ollyngwyd (gwaredu) ar dir		Mr Deiliad Newydd

3b Darparwch fap neu gynllun

Dylai'r map neu gynllun a ddarperir gennych nodi'n glir y rhan neu'r rhannau o'r drwydded rydych am ei throsglwyddo/eu trosglwyddo. Ysgrifennwch gyfeirnod dogfen ar y cynllun hwn a nodwch y rhif hwn ar y ffurflen er mwyn gallu croesyfeirio â'r ddogfen.

Mater hawlfraint

Nodwch y bydd gan rai cynlluniau a mapiau faterion hawlfraint. Oni bai eich bod yn defnyddio eich mapiau neu gynlluniau eich hun neu eich bod wedi talu am yr hawlfraint (er enghraifft, gyda'r Arolwg Ordnans), mae'n bosibl na fydd gennych yr hawl i atgynhyrchu'r map na'r cynllun.

3d Newidiadau i'r amodau sy'n weddill

Os credwch y bydd angen newid amodau eich trwydded o ganlyniad i drosglwyddo rhan o'ch trwydded, ticiwch y blwch 'ydw'. Os credwch nad oes unrhyw newidiadau i'w gwneud i'ch trwydded, ticiwch y blwch 'nac ydw' ac ewch yn syth i adran 4.

Os byddwch wedi ticio 'ydw', bydd angen i chi lenwi ffurflenni i amrywio eich trwydded. Mae gwahanol ffurflenni ar gyfer gwahanol weithgareddau.

Bydd angen llenwi rhan C2 - cyffredinol - amrywio trwydded bwrpasol ar gyfer pob amrywiad. Bydd angen i bawb lenwi naill ai ran C6 neu ran C7 (ar gyfer gweithgareddau penodol). Bydd angen i bawb lenwi rhan F2 sy'n ymwneud â thaliadau.

4 Y dyddiad yr hoffech drosglwyddo

Nodwch y dyddiad yr hoffech drosglwyddo'r drwydded. Rhaid i chi roi **o leiaf 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad hysbysu**, h.y. y dyddiad y caiff y ffurflen ei llenwi.

Bydd y deiliad presennol yn gyfrifol am gydymffurfio â'r drwydded ac unrhyw daliadau cysylltiedig hyd nes y bydd y trosglwyddiad wedi'i gwblhau.

6 Datganiad

Rhaid i ddeiliad presennol y drwydded a deiliad newydd y drwydded sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad gwblhau'r datganiadau.

Dylid sicrhau mai person perthnasol sy'n gwneud y datganiad.

Ystyr pobl berthnasol yw pob ymgeisydd, ac yn achos cwmni, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd y cwmni neu unrhyw swyddog neu gyflogai tebyg a restrir ar benodiadau cyfredol yn Nhŷ'r Cwmnïau. Yn achos Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (LLP), mae'n cynnwys unrhyw bartner.

Er mwyn gwneud trosglwyddiad, mae angen datganiad arnom gan ddeiliaid presennol y drwydded sy'n trosglwyddo eu trwydded a'r person neu'r personau y caiff y drwydded ei throsglwyddo iddo neu iddynt. Os bydd sawl deiliad presennol yn trosglwyddo, bydd yn rhaid i bob un ohonynt gwblhau datganiad. Os bydd sawl deiliad trwydded arfaethedig yn y dyfodol, bydd yn rhaid i bob un ohonynt gwblhau datganiad. Dylech anfon dogfen ar wahân os bydd angen i chi wneud mwy na'r nifer o ddatganiadau a ddarperir.

6b Dylai deiliaid presennol y drwydded lenwi'r datganiad hwn

6c Dylai'r person y caiff y drwydded ei throsglwyddo iddo lenwi'r datganiad hwn.

Os ydych yn llofnodi ar ran cwmni, dylech nodi enw'r cwmni a rhif y cwmni.

Noder: byddwn yn anfon llythyr i gadarnhau'r trosglwyddiad at y deiliaid presennol a'r deiliaid newydd. Os ydych yn symud cyfeiriad, bydd angen i ni anfon y llythyr hwn i'ch cyfeiriad newydd, felly rhowch wybod eich cyfeiriad newydd i ni mewn llythyr ar wahân